Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

**Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** 13 Mai 2026 **Amser:** 09.30am.

Cyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd.

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
- Dave Street (Aelod o'r Bwrdd)
- John Williams (Aelod o'r Bwrdd)

---

**1. Croeso ac ymddiheuriadau:** Dechreuodd y cyfarfod gyda chyfarchion, a chafodd presenoldeb ei gadarnhau.

**2. Datgan gwrthdaro o ran buddiannau:** Ni ddatganodd y Bwrdd unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.

**3. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol:** Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hailddosbarthu, a gwnaed cais i hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth bod y cofnodion wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cafodd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol eu trafod a'u cydnabod.

**4. Diweddariad ynghylch y gwaith ar ddata am ddiogelu:** Bu'r Bwrdd yn ystyried cyflwyniad a gafwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Metropolitan Manceinion ar ddadansoddiad y Brifysgol o'r modd y caiff data cenedlaethol am ddiogelu ei gasglu yng Nghymru ar hyn o bryd. Cytunwyd bod y dadansoddiad yn codi cwestiynau defnyddiol ac yn dangos yr angen anorfod i ystyried data mewn ffordd wahanol. Ystyriwyd i ba raddau y gallai digwyddiad bord gron gyda'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol fod yn ddefnyddiol efallai. Cytunwyd i drafod â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn

cefnogi gwaith arfaethedig Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. **Gweithredu: Y Cadeirydd i ystyried gyda Llywodraeth Cymru.**

**5. Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Cenedlaethol:** Ystyriwyd adroddiadau blynyddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol fel dull o adrodd ynghylch effeithiolrwydd diogelu, ac a yw'r templed presennol yn ddull llwyddiannus o gasglu'r wybodaeth honno. Mae'r adroddiadau hynny'n eu tro'n darparu'r data sy'n llywio adroddiad blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol o ran rhoi sylwadau ar effeithiolrwydd diogelu yng Nghymru. Byddai adolygiad o'r adroddiadau blynyddol i'r perwyl hwnnw'n ddefnyddiol. Cytunwyd i drafod y mater hwn â Rheolwyr Busnes a Chadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

**6. Diweddariad am yr adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant**

Mae fersiwn terfynol yr adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant bron yn barod, ac fe'i disgwylir cyn diwedd y mis. Yn ogystal, bydd digwyddiad bord gron arfaethedig i rannu gwaith dysgu yn cynnwys compendiwm o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ac yn yr adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru, a gynhaliwyd yn 2023, er mwyn ystyried effaith. **Gweithredu: Cyfieithu a dosbarthu'r adroddiad EL; Gofyn am gadw dyddiad ar gyfer digwyddiad bord gron EL.**

**7. Strategaeth Gyfathrebu a gwefan y Bwrdd Cenedlaethol:** Cafodd y Bwrdd gyflwyniad manwl gan Dan Eatly o Golly Slater, a ddarparodd wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd ac am ganlyniadau'r cyfweliadau a gynhaliwyd â rhanddeiliaid er mwyn nodi canfyddiadau ynglŷn â'r Bwrdd Cenedlaethol, ei ddiben a'i ffyrdd o ymgysylltu. Cafodd y cyflwyniad ei groesawu gan y Bwrdd a oedd yn falch o nodi'r canfyddiadau cadarnhaol iawn ac a oedd yn awyddus i ddeall yn well beth a ddisgwylir gan y Bwrdd. Bydd gwefan y Bwrdd Cenedlaethol yn rhoi gwybod i unrhyw ddefnyddwyr ei bod wrthi'n cael ei datblygu, nes y bydd y gwaith ailddylunio wedi'i gwblhau. Bwriedir cynnal sesiwn ddatblygu arall gyda'r Bwrdd a datblygwyr y wefan.

**8. Yr Wythnos Diogelu – Cynhadledd:**

Bu'r Bwrdd yn trafod cynlluniau ar gyfer y Gynhadledd Ddiogelu ym mis Tachwedd, a chytunodd i ganolbwyntio ar themâu'n ymwneud â diogelu oedolion. Ystyriwyd bod cydweithio â phartneriaid academaidd a chymorth gan y cyfryngau yn bwysig. Cytunwyd i gynnal cynhadledd y Bwrdd Cenedlaethol yn ystod yr wythnos cyn yr Wythnos Diogelu, er mwyn galluogi pobl i fynychu'r digwyddiadau niferus a gynhelir yn ystod yr Wythnos Diogelu. Bydd grŵp gorchwyl o blith aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn datblygu'r rhaglen. **Gweithredu: Cadarnhau dyddiadau'r Wythnos Diogelu EL.**

**9. Diweddariad ynghylch y gyllideb:** Bydd adroddiad ynghylch y gyllideb yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: EL.**

**10. Cynllun gwaith:** Mae fersiynau terfynol o strategaeth a chynllun gwaith y Bwrdd Cenedlaethol wedi'u cwblhau. Mae cynllun gwaith mewnol gweithredol wrthi'n cael ei ddatblygu. **Gweithredu: DM**

**11. Adolygiad thematig o Adolygiadau Diogelu Oedolion:** Mae rhaglen dreigl y Bwrdd Cenedlaethol o adolygiadau thematig ynghylch adolygiadau ymarfer yn golygu bod angen comisiynu adolygiad o themâu'n ymwneud ag oedolion ar gyfer 2026. Cytunwyd i ofyn yn gyntaf i Storfa Ddiogelu Cymru ddarparu'r adolygiadau a gynhaliwyd ac a gyhoeddwyd, er mwyn ystyried a oes yna ddigon o adolygiadau i wneud y gwaith hwn yn werth chweil ac i lunio cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad thematig. **Gweithredu: Gofyn i Storfa Ddiogelu Cymru am adroddiadau EL**.

**12. Diweddariad gan y Byrddau Rhanbarthol a rhanddeiliaid:** Adroddodd y Byrddau Rhanbarthol ynghylch adolygiadau ymarfer diweddar, heriau, a gwaith sydd ar y gweill. Trafodwyd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran y byd academaidd, y llywodraeth a grwpiau iechyd, a phwysleisiwyd yr angen am gydweithio cryfach ac am ddulliau gwell o rannu data.

**13. Unrhyw fater arall**

(i) Dosbarthu dogfen sefydlu'r Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer aelodau newydd, yn dilyn y newidiadau terfynol. **Gweithredu: EL.**

(ii) Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf Tony Young, Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol. Roedd Tony wedi bod yn gwasanaethu ar y Bwrdd ers 7 mlynedd ac wedi bod yn Gadeirydd yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd newydd Dave Street i Tony am ei gyfraniad sylweddol ac am ei ymroddiad i waith y Bwrdd, gan gydnabod effaith barhaol hynny.

Roedd y Bwrdd yn falch o groesawu Dave Street yn Gadeirydd newydd y Bwrdd Cenedlaethol.

**Daeth y cyfarfod i ben**

Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ar 10 Mehefin am 9.30 ar Teams.

---